Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 19 Mehefin 2013

10.30 – 2.20

Ystafelloedd 107 ac 108, Ysgol Optometreg, Prifysgol Caerdydd

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R Merfyn Jones (Cadeirydd) Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (tan 13.00) Andrew Green, Cyfarwyddwr Annibynnol Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Stephanie Lloyd, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Catherine Rees, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Materion Corfforaethol, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Nia Brown, Swyddog Datblygu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Hefyd yn Bresennol:	Rachel Cable, Addysg Uwch Cymru (AUC/HEW) Celia Hunt, Pennaeth Sgiliau, Addysg a Chyllido, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Adam Jones, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC Cymru

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Sylwadau agoriadol ac ymddiheuriadau	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau ac yn arbennig i Andrew Green fel Cyfarwyddwr Annibynnol ac i Catherine Rees, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Materion Corfforaethol y Coleg, i'w cyfarfod cyntaf. 1.2 Nodwyd mai dyma fyddai cyfarfod olaf yr Athro Aled Jones, fel Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch, a diolchwyd iddo am ei gyfraniad gwerthfawr ar hyd y cyfnod. 1.3 Adroddwyd y derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad, fel Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch, gan yr Athro Medwin Hughes. 1.4 Adroddwyd y byddai Addysg Uwch Cymru yn enwebu unigolyn i gymryd lle'r Athro Medwin Hughes am weddill ei dymor. 1.5 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.	Penodi Cyfarwyddwr	Erbyn Tachwedd 2013
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau heblaw'r rhai sydd eisoes wedi eu cofnodi. Nodwyd gan y Cadeirydd y diweddarwyd y Gofrestr Buddiannau ym mis Ebrill yn dilyn newidiadau yn aelodaeth y Bwrdd.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2013	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2013.		

4. Materion yn Codi	**Eitem 1.3** <u>Penodi Is-Gadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr</u> Cynigiwyd penodi Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol, i olynu Gareth Pierce, fel Is-Gadeirydd y Bwrdd. Cymeradwywyd ei phenodiad yn unfrydol.		
(BC/13/02/4)	**Eitem 4** <u>Statws y Coleg o fewn Siarter sefydliadau unigol</u> Derbyniwyd ac ystyriwyd geiriad posibl o gymal y gellid ei gynnwys yn siarteri'r sefydliadau unigol, yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod blaenorol. Cafwyd trafodaeth ar y cymal gyda rhai Cyfarwyddwyr yn datgan amheuon ynghylch gofyn i'r sefydliadau ychwanegu cymal o'r fath at eu siarteri sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor. Pwysleisiodd eraill y pwysigrwydd o gael datganiad o genhadaeth er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth yn y dyfodol. Awgrymwyd efallai y gellid sicrhau ymrwymiad o gydweithio yn lle i'w osod yn ordinhadau'r sefydliadau a gofyn am arweiniad gan Addysg Uwch Cymru.	Swyddogion i ofyn i AUC ystyried ar lefel sector	Erbyn Tachwedd 2013
	Eitem 4 <u>Ymddiriedolaeth Gwasg Prifysgol Cymru</u> Adroddwyd yr ysgrifennwyd at Brifysgol Cymru yn unol â dymuniad y Bwrdd i'r Coleg gael ei gynrychioli ar Ymddiriedolaeth Gwasg Prifysgol Cymru. Nodwyd fod ymateb wedi dod i law gan yr Athro Medwin Hughes a bod cyfarfod i drafod y mater hwn yn yr arfaeth.		
	Eitem 5 <u>Adroddiad ar Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon</u> Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar adroddiad, a gyflwynir i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Gorffennaf, ar y cyd rhwng y Coleg a CCAUC. Nodwyd y bwriad o gylchredeg copi o'r adroddiad at aelodau'r Bwrdd cyn ei gyflwyno'n swyddogol, er mwyn cytuno ar ei gynnwys drwy ohebiaeth.	Cylchredeg adroddiad	Gorffennaf 2013

	Eitem 10.4 Ceisiadau Prifysgol De Cymru – Prifysgol Morgannwg gynt – i'r Cynllun Staffio Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar y trafodaethau sensitif a gafwyd yn sgil y penderfyniad y byddai unrhyw fuddsoddiad pellach gan y Coleg yn y Diwydiannau Creadigol eleni ar sail buddsoddiad cyfartal gan y Brifysgol. Nodwyd bod angen pwysleisio'r egwyddor y disgwylir i sefydliadau fuddsoddi o'u hadnoddau eu hunain er mwyn cynnal a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yng ngoleuni'r seminar materion cyllido cyfrwng Cymraeg y noson cynt, cytunwyd ar yr angen i barhau i osod amodau pendant, mewn achosion penodol, wrth ddyfarnu cyllid gan y Coleg. Nodwyd pryder rhai o'r Cyfarwyddwyr y byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn crebachu pe na fyddai cyd-fuddsoddiad yn bosibl oherwydd prinder cyllid yn y sefydliadau. Ystyriai eraill ei bod yn bwysig cadw at yr egwyddor o gyd-fuddsoddiad. Cymeradwywyd yn unfrydol y penderfyniad i beidio cyllido swydd ddarlithio mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol De Cymru yn wyneb methiant y Brifysgol i gydymffurfio â'r amod a osodwyd gan y Bwrdd yn eu cyfarfod ar 27 Chwefror 2013.		
	Eitem 14 Memorandwm o ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Cholegau Cymru Derbyniwyd copi caled o'r Memorandwm o ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Cholegau Cymru yn y cyfarfod. Nodwyd y bwriad o lansio'r memorandwm yn swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.		
5. Gohebiaeth	5.1 Adroddodd y Prif Weithredwr ar lythyr gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg ynghylch adolygiad y byddai Swyddfa'r Comisiynydd yn ei gynnal ar faes terminoleg a geiriadura. Byddai'r Coleg yn cyfrannu at yr adolygiad.		

	5.2 Adroddodd y Prif Weithredwr ymhellach ar lythyr a dderbyniwyd gan yr Athro Damian Walford Davies, Cadeirydd Llenyddiaeth Cymru, ynghylch prosiect i ddiweddaru cynnwys Gwyddoniadur Cymru. Eglurwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch swyddogaeth bosibl y Coleg yn y maes hwn, a'r awgrym y gallai'r Coleg arwain y prosiect fel sefydliad cenedlaethol. Byddai cyfarfod i drafod y mater ymhellach ym mis Gorffennaf.		
6. Llywodraethu **(BC/13/02/06)**	<u>Gwerthusiad o'r Bwrdd</u> 6.1 Ystyriwyd a derbyniwyd yn unfrydol yr Adroddiad ar Weithrediadau'r Bwrdd, a gyflwynwyd gan Wyn Mears ym mis Mawrth 2013. 6.2 Cafwyd cyflwyniad gan Ysgrifennydd y Coleg ar y Cynllun Gweithredu a luniwyd gan y swyddogion mewn ymateb i'r adroddiad. Pwysleisiwyd cyfrifoldeb y Bwrdd i weithredu'r Cynllun hwn, o'i dderbyn. 6.3 Nodwyd bod y seminar a drefnwyd y noson cynt yn enghraifft o'r math o weithgaredd y gellid ei drefnu er mwyn gweithredu'r Cynllun. Nodwyd cyfrifoldeb y Bwrdd i fabwysiadu rhaglen waith yn unol ag argymhellion yr Adroddiad gan nodi y byddai'r mater hwn ar agenda'r cyfarfod nesaf.	Rhaglen waith ar yr agenda nesaf	Tachwedd 2013
7. Newidiadau i'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu	7.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr yn nodi y byddai'r swyddogion yn derbyn cyngor er mwyn ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol erbyn Cyfarfod y Llys ar 18 Chwefror 2014. Nodwyd y byddai angen i'r Bwrdd leihau nifer aelodau rhanddeiliadol y Coleg yn dilyn uno rhai sefydliadau addysg uwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.	Cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd	Tachwedd 2013

8. Penodi / ailbenodi Cadeirydd y Bwrdd **(BC/13/02/08)**	8.1 Ar gyfer yr eitem hon gadawodd y Cadeirydd, Swyddogion y Coleg (heblaw am Ysgrifennydd y Coleg) a'r holl sylwebwyr yr ystafell er mwyn i'r Cyfarwyddwyr ystyried y mater yn gyfrinachol. Cadeiriwyd y rhan hon o'r cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Linda Wyn. 8.2 Nododd yr Athro Aled Jones ddiddordeb yn y mater yn wyneb ei berthynas â'r Cadeirydd ond mynegodd aelodau'r Bwrdd nad oeddent o'r farn y dylai adael yr ystafell. 8.3 Nodwyd y penodwyd yr Athro R Merfyn Jones yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2011 a bydd ei dymor yn dod i ben ym mis Chwefror 2014. 8.3 Cafwyd trafodaeth ar y prosesau ar gyfer penodi / ailbenodi Cadeirydd. 8.4 Argymhellwyd y dylai Pwyllgor Penodiadau'r Coleg gadarnhau proses ar gyfer penodi Cadeirydd y Bwrdd.		
9. Materion Staffio	9.1 Nodwyd penodiad Elin Williams fel y Rheolwr Cyfathrebu newydd a fydd yn dechrau yn ei swydd ar 15 Gorffennaf 2013. 9.2 Nodwyd penodiad parhaol Nia Brown fel Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth. 9.3 Nodwyd penodiad Lowri Wynne Williams fel Cydlynydd Academaidd (Astudiaethau Cyfieithu). Bydd ar secondiad o flwyddyn o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. 9.4 Cafwyd adroddiad llafar, gan Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Materion Corfforaethol y Coleg, yn egluro bod ailstrwythuro wedi digwydd a bod strwythur staffio newydd wedi ei gymeradwyo yn y Pwyllgor Staffio a gyfarfu ar 18 Mehefin 2013. Eglurwyd y byddai'r newidiadau yn cynnwys creu swydd Rheolwr Swyddfa		

	gydag un o'r swyddi presennol yn y Coleg yn dod i ben. 9.5 Nodwyd, oherwydd natur dyletswyddau Ysgrifennydd y Coleg, a fyddai ar gyfnod mamolaeth yn ystod 2013/14, na fydd penodiad cyfnod mamolaeth yn cael ei wneud, ac y byddai'r dyletswyddau rheoli yn cael eu rhannu rhwng yr uwch reolwyr. Bydd Catherine Rees yn ymgymryd â dyletswyddau Ysgrifennydd yn absenoldeb Dr Schiavone.		
10. Materion Archwilio	10.1 Cadarnhawyd penodiad yr Athro Iwan Davies fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Adroddwyd bod y Pwyllgor wedi cyfethol Gareth Pierce fel aelod am gyfnod o dair blynedd. 10.2 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2013. 10.3 Cafwyd adroddiad llafar gan Geraint James, Cadeirydd y Pwyllgor. Adroddwyd y derbyniwyd adroddiad ar gyllideb 2012/13 yn y cyfarfod yn y bore ac iddynt ystyried cyllideb ddrafft 2013/14. Adroddwyd bod proffil addas ar gyfer taliadau grant wedi ei gytuno gyda CCAUC. 10.4 Nodwyd cadernid prosesau monitro mewnol yn dilyn derbyn yr adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn eu cyfarfod. 10.5 Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd ar y Gofrestr Risg. Nodwyd y dylid parhau i gyfeirio'r risgiau strategol lefel uchel i'r Cyfarwyddwyr ond y byddai'r swyddogion yn ymdrin â'r risgiau gweithredol. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod dros y rhwydwaith fis Hydref er mwyn derbyn y cyfrifon archwiliedig a chynnal trafodaeth ar faterion eraill yn cynnwys adroddiadau perthnasol gan yr archwilwyr mewnol.		

11. Materion Cynllunio	11.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar y seminar a gynhaliwyd y noson gynt, 18 Mehefin 2013, ym Mhrifysgol Caerdydd, ar Drafodaeth Strategol ar Drefniadau Cyllido Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Diolchwyd i Celia Hunt am ei chyflwyniad cynhwysfawr. 11.2 Nododd rhai aelodau o'r Bwrdd y byddai'r newid yn y drefn cyllido yn peri problemau i rai sefydliadau. Adroddodd y swyddogion y byddent yn cynnal trafodaethau unigol gyda sefydliadau i ystyried effeithiau posibl y newidiadau ond bod yr egwyddor o gydgyllido swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg yn allweddol i barhad a thwf yn y ddarpariaeth.		
12. Cyngor Cyllido	12.1 Derbyniwyd, er gwybodaeth, llythyr gorchwyl y Coleg gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2013/14. 12.2 Nodwyd pwysigrwydd cymal 5, tudalen 2, o'r llythyr. 12.3 Pwysleisiodd y Prif Weithredwr yr angen i ymgynghorwyr allanol allu gweithredu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg am mai dyna yw iaith weithredol y Coleg.		
13. Cyllideb Ddrafft 2013/14 **(BC/13/02/13)**	13.1 Cafwyd cyflwyniad ar y Gyllideb ar gyfer 2013/14 gan y Cofrestrydd gan gynnwys siart weledol a oedd wedi'i hystyried gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod cyfarfod y bore. 13.2 Nodwyd y trafodaethau gyda CCAUC ynghylch y proffil taliadau grant ac y byddai union broffil y taliadau ar gyfer 2013/14 yn cael ei gadarnhau yn derfynol yn amodol ar gytundeb y Bwrdd i'r Gyllideb. 13.3 Cymeradwywyd a derbyniwyd y Gyllideb yn ffurfiol gan y Cyfarwyddwyr.		

14. Cynllun Gweithredu 2012/13 **(BC/13/02/14)**	14.1 Derbyniwyd diweddariad i Gynllun Gweithredu'r Coleg ar gyfer 2012/13 a nodwyd bod mwyafrif y targedau eisoes wedi eu cyrraedd. Adroddodd y swyddogion y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gwblhau ar ddiwedd Gorffennaf 2013.		
15. Cynllun Gweithredu 2013/14	15.1 Derbyniwyd drafft o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013/14 a nodwyd yr amserlen ar gyfer ei gymeradwyo. Nodwyd y trafodir y ddogfen gyda'r Cyngor Cyllido ddiwedd Mehefin 2013 a'i dosbarthu i aelodau'r Bwrdd am sylwadau yn ystod yr haf.	Dosbarthu'r cynllun i'r Bwrdd	Haf 2013
16. Materion Academaidd	16.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Mai 2013 a chynllunio pynciol. Nododd ei fod wedi ymweld â phob cangen ar draws Cymru eleni a nodwyd ei ddiolch i'r Swyddogion Cangen am y trefniadau. 16.2 Cyfeiriwyd at y gwaith o ddatblygu cynlluniau pwnc ac oherwydd y nifer a'r pwysau nodwyd bod cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd Academaidd wedi'i drefnu ar gyfer 17 Gorffennaf 2013. Nodwyd fod cynllun y Gyfraith yn barod, cynllun Daearyddiaeth, Amaethyddiaeth a Gwyddor Amgylchedd bron yn barod a bod cynlluniau'r Gymraeg a Busnes yn datblygu. Nodwyd bod cynllun cenedlaethol Ieithoedd Modern yn cael ei gyd-ddatblygu. Rhagwelir y bydd nifer o gynlluniau pynciol eraill yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf. Adroddwyd bod gwaith mawr gan y paneli pwnc a bod targedau a chynllunio strategol mewn lle ar gyfer nifer o'r cynlluniau. 16.3 Nodwyd y byddai'r Bwrdd Academaidd yn trefnu seminarau a gweithdai yn y dyfodol i gyd-fynd â'i gyfarfodydd gan gynnwys gweithdy arfer da cyn cyfarfod mis Gorffennaf. 16.4 Nodwyd yn ogystal ddatblygiadau ym maes Astudiaethau		

	Cyfieithu a gwaith y Pwyllgor Cydweithio Academaidd yn ogystal â cheisiadau o safon yr ysgoloriaethau ymchwil. 16.5 Diolchwyd i'r Deon am ei gyflwyniad cynhwysfawr a chanmolwyd staff y Coleg am eu gwaith.		
17. Pwyllgor Cydweithio Academaidd	17.1 Rhoddwyd diweddariad ar waith y Pwyllgor Cydweithio Academaidd gan y Prif Weithredwr. Nodwyd fod y Pwyllgor eisoes yn weithredol ac yn ystyried cynigion gan gynnwys Cynllun Astudiaethau Rhan-amser a dilysu ar y cyd o fewn fframwaith ansawdd cadarn.		
18. Cynllun Staffio Academaidd **(BC/13/02/18)**	18.1 Cyflwynwyd papur ar y Cynllun Staffio Academaidd a'r trefniadau ar gyfer y dyfodol, gan y Prif Weithredwr, gan egluro'r rhesymeg dros yr argymhellion i ddiwygio rhai trefniadau dyfarnu ar gyfer swyddi i ddechrau yn 2014/15 a 2015/16. Cafwyd trafodaeth ar y mater a chymeradwywyd yr argymhellion a nodwyd o dan gymalau 9, 11 a 13 o'r papur.	Swyddogion i ddiwygio'r Cynllun Cyhoeddi cylchlythyr	Haf 2013 Medi 2013
19. Y Gronfa Datblygiadau Strategol **(BC/13/02/19)**	19.1 Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried a chymeradwyo'r argymhellion ar ddyraniadau o'r Gronfa Datblygiadau Strategol, fel y cafwyd yn Atodiad 19/1 gan nodi'r cyllid bychan – £93,000 – o'i gymharu â'r gorffennol. 19.2 Atgoffwyd y Cyfarwyddwyr bod hyn yn fater cyfrinachol tan i swyddogion y Coleg ddosbarthu gohebiaeth ffurfiol i'r sefydliadau unigol. Nodwyd y byddai hyn yn digwydd yn y dyddiau'n dilyn y cyfarfod. 19.3 Cafwyd trafodaeth ar y ceisiadau a dderbyniwyd gan y sefydliadau i ariannu prosiectau a gweithgareddau a chytunwyd yn unfrydol i gyllido'r cyfan yn unol â'r argymhellion.	Dosbarthu gohebiaeth	Mehefin 2013

20. Adolygu Ysgoloriaethau **(BC/13/02/20)**	20.1 Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried argymhellion ar gyfer adolygu'r trefniadau ar gyfer ysgoloriaethau israddedig a lefel Meistr y Coleg fel y nodwyd yn y papur. Wedi i'r Cofrestrydd ddarparu arweiniad ar y mater, a thrafodaeth fer, cymeradwywyd yr argymhellion yn unfrydol.		
21. Ymgyrch Recriwtio a'r Prosbectws	21.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cofrestrydd ar lansiad y Prosbectws newydd. Nodwyd bod fersiwn Cymraeg a fersiwn dwyieithog o'r prosbectws wedi'u cyhoeddi, yn ogystal â fersiwn electronig gydag elfennau rhyngweithiol maes o law. Nodwyd ymhellach fod copïau o'r prosbectws wedi'u dosbarthu i ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach. Bydd y prosbectws ar gael yn ystod gwyliau cenedlaethol Cymru eleni gan gynnwys Tafwyl, Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Croesawyd y prosbectws yn fawr a diolchwyd yn ffurfiol i'r Cofrestrydd am arwain y gwaith.		
22. Cyfarfod Blynyddol 2014	22.1 Cynhelir Cyfarfod Blynyddol nesaf y Llys yng Nghaerfyrddin ar 18 Chwefror 2014. 22.2 <u>Cymrodyr er Anrhydedd</u> – Nodwyd bod enwebiadau wedi dod i law gan y Bwrdd Academaidd ac y byddai cyfle i'r Cyfarwyddwyr enwebu, drwy law Nia Brown, dros yr haf. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ymgynghori ac yn cyflwyno argymhelliad terfynol i'r Cyfarwyddwyr yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.	Nia Brown i gylchredeg gwahoddiad Argymhellion terfynol	Haf 2013 Hydref 2013
23. Unrhyw Fusnes Arall	23.1 Adroddwyd bod 34 o fyfyrwyr wedi llwyddo i sicrhau'r Dystysgrif Sgiliau Iaith, ac fe'u cyflwynir iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych fis Awst 2013.		

	23.2 Nodwyd y byddai rhaglen lawn o weithgareddau yn yr Eisteddfod Genedlaethol 2013, gan gynnwys cyflwyno ysgoloriaethau, derbyniad swyddogol a darlith flynyddol gan Dr Enlli Thomas. 23.3 Cyflwynwyd y bwriad, yn amodol ar gytundeb y teulu, o sefydlu gwobr er cof am Eilir Hedd Morgan, darlithydd ar y Cynllun Staffio, a laddwyd mewn damwain yn gynharach eleni. 23.4 Gofynnwyd am gefnogaeth y Coleg i bwyso ar UCAS i roi'r hawl i ddarpar-fyfyrwyr cyflwyno cais yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hytrach na'r naill neu'r llall. 23.5 Nodwyd bod Cyngor Sir Gwynedd wedi sefydlu Ysgoloriaeth Gwynedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i'w dyfarnu yn flynyddol.	Cysylltu ag UCAS	Haf 2013
24. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	24.1 Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 27 Tachwedd 2013 ym Mhrifysgol Bangor. Bydd cyngerdd er cof am Eilir Hedd Morgan y noson gynt ar 26 Tachwedd yn Neuadd Prichard Jones gyda'r elw yn mynd tuag at Gronfa William Salesbury. 24.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith a dymunwyd yn dda i Dr Gwennan Schiavone ar gyfer ei chyfnod mamolaeth.		